**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-909
Ein cyf/Our ref KW/07638/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd - Pwyllgor deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

10 Rhagfyr 2019

Annwyl Janet Finch-Saunders AS,

Diolch yn fawr am eich llythyr dilynol ar 2 Rhagfyr, ar ran y Pwyllgor Deisebau, ynglŷn a Deiseb P-05-909 – Hybu'r defnydd o iaith arwyddion Makaton yn holl ysgolion Cymru.

Bydd ein cwricwlwm newydd yn galluogi holl ysgolion i ddewis i ddysgu ieithoedd sydd fwyaf addas i'w hysgolion, dysgwyr ac adnoddau. Bydd angen i ysgolion gael sylw priodol i'r canllawiau statudol ac arfaethedig i'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlaCh) a fydd yn cynnwys dilyniant mewn Iaith/Ieithoedd Rhyngwladol ar gyfer holl ddysgwyr o'r ysgol gynradd hyd at ddiwedd Blwyddyn 9. Mae'r term 'ieithoedd rhyngwladol' yn cael ei ddefnyddio i alluogi ysgolion i gynnwys nid yn unig y ieithoedd cyfoes a ddysgir yn draddodiadol yn ein hysgolion ond hefyd Iaith Arwyddo Prydeinig (IAP / BSL), ieithoedd cymunedol neu ieithoedd clasurol. Ni fydd darpariaeth o ieithoedd rhyngwladol yn opsiynol ond mi fydd lle i ysgolion i benderfynu ar y ddarpariaeth gywir ar gyfer eu dysgwyr.

Bydd yr arweiniad statudol yn dangos beth fydd rhaid i'r ysgolion a'r awdurdod lleol ei wneud i gydymffurfio gyda'r gyfraith a darparu canllawiau pellach ar sut i sylweddoli bwriad y cwricwlwm. Mae Ieithoedd Rhyngwladol yn rhan o ddatganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig ac felly yng nghanol y Maes Dysgu a Phrofiad, ac yn mewngapsiwleiddio y cysyniadau allweddol ar gyfer dysgu a dylent i gyd gael eu hadlewyrchu yn y cwricwla lefel-ysgol.

O fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol cyfredol, yr unig le mae Iaith Arwyddion Prydeinig (IAP) yn ffitio yw trwy'r PSE neu'r Bagloriaeth Gymreig. Gan bod IAP yn cael ei adnabod gan

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru fel iaith yn ei hun, ac yn gyfrwng addysg / iaith gyntaf i blant byddar, mae'n hanfodol ei fod yn cael ei adlewyrchu o fewn ein cwricwlwm newydd. Gweithiodd grŵp datblygu'r Maes Dysgu a Phrofiad gyda arbenigwyr anghenion addysg arbennig a gyda chefnogaeth gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar i ddiffinio Ieithoedd Rhyngwladol, gan alluogi ysgolion i ddewis dysgu IAP i'w disgyblion.

Mae'r ffaith y bydd y cwricwlwm newydd yn caniatáu ysgolion a chlystyrau i ddewis pa iaith / ieithoedd sy'n cael eu dysgu, yn ychwanegol i Gymraeg a Saesneg, yn debyg i'r cwricwlwm cyfredol. Beth sy'n wahanol yw'r disgwyliadau bod pob dysgwr yn dysgu Iaith / Ieithoedd Rhyngwladol yn yr ysgol gynradd. Mae hyn yn cynnig ecwiti mwy o ddarpariaeth na'r Fframwaith ar gyfer Ieithoedd Tramor Modern (IMT / MFL) yn CA2 cyfredol sydd ddim yn statudol, sy'n golygu bod rhai ysgolion ar hyn o bryd yn cynnig iaith arall yn yr ysgol gynradd ac eraill ddim.

Ar yr un amser, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno system newydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY / ALN) i gymryd lle y system Anghenion Addysg Arbennig (AAA / SEN) yng Nghymru. Bydd y Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg (Cymru) Deddf 2018 yn creu fframwaith deddfwriaethol unedig i gefnogi dysgwyr o 0 i 25 oed sydd gyda ADY. Ei ffocws yw sicrhau bod holl blant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol gyda mynediad i'r cwricwlwm, fel Makaton, gyda'r gefnogaeth wedi ei gynllunio amdano a'i amddiffyn.

I gefnogi yr holl bartneriaid i weithredu a throsglwyddo'n llwyddiannus y system newydd, rydym wedi ymrwymo £20m ar gyfer y Rhaglen Trawsffurfio ADY dros gwrs y Cynulliad hwn. Bydd rhan helaeth o'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgaredd i wella sgiliau'r gweithlu i gwrdd yn well anghenion dysgwyr gyda ADY. Mae gwaith ar hyn o bryd yn cael ei wneud i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol i athrawon fydd yn eu cefnogi i fod yn medru cyfarfod yr anghenion o'u holl ddysgwyr. Ochr yn ochr a'r cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer pob athro rydym yn datblygu cynnig dysgu proffesiynol penodol i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydlynwyrADY) fydd yn darparu rôl arweiniol strategol ac y pwynt cyswllt ar gyfer cyngor broffesiynol ac arweiniad.

O ran eich ail bwynt, ynglŷn a'r gefnogaeth gan y Llywodraeth i ddarparu cyfleon eraill i ddysgu Makaton, ffocws Llywodraeth Cymru o fewn dysgu oedolion yw ar Iaith Arwyddo Prydeinig (IAP). Er mwyn cael dealltwriaeth fwy eglur o'r argaeledd a'r angen am IAP gan oedolion yng Nghymru, fe gomisiynais yn ddiweddar i'r Uned Pobl a Gwaith adolygu y ddarpariaeth yn y sector wedi 16 oed. Mae'r adolygiad hwn nawr wedi ei gwblhau a bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn fuan. Yn dilyn cyhoeddi, byddaf yn penderfynu pa gamau nesaf fydd eu hangen i ddatblygu ein polisi o amgylch darpariaeth IAP mewn oedolion yng Nghymru.

Gobeithiaf bod cynnwys y llythyr hwn yn gynorthwyol.

Yn Gywir,



**Kirsty Williams AC/AM**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education